**STD(2) 02-06(03)**

**Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Date:** **Thursday, 29 June 2006**
**Time:** **2:00pm**
**Venue:** **Senedd Room 2**
**Title:** **Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol: Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

Dyma fy mhedwerydd adroddiad i'r Pwyllgor ac rwy’n gwerthfawrogi’r cyfle y mae'r slot hwn yn ei roi i mi gyflwyno materion penodol yn fawr iawn. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r materion a gododd dros y misoedd diwethaf o ran cwynion a'r broses gwyno.

Er na chyflwynwyd unrhyw gwynion i'r Pwyllgor, bu'r llwyth gwaith yn y maes hwn yn feichus. Derbyniwyd mwy o gwynion dros y misoedd diwethaf nag arfer. Ers mis Mawrth eleni rwyf wedi derbyn chwe chwyn ffurfiol, er fy mod i (a'r Ysgrifenyddiaeth) wedi delio â nifer o gwynion posibl.

Mae natur y cwynion wedi amrywio'n fawr. Mae'r wefan yn rhoi mynediad i swyddfa'r Comisiynydd nad oedd ar gael cyn hynny. Rwy'n parhau i dderbyn llythyrau a gohebiaeth ddigymell ar faterion sydd y tu allan i'm cylch gwaith fel Comisiynydd (a rhywfaint o ohebiaeth nad yw'n ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru o gwbl). Mae'n eithaf syml ymateb i'r math hwn o ohebiaeth ond mae'n ychwanegu at y llwyth gwaith, a hoffwn unwaith eto estyn fy niolch i'r Ysgrifenyddiaeth am ei chymorth yn y maes hwn.

Roedd nifer o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â materion dibwys. Rwyf wedi ymchwilio i ddwy gw^yn ynghylch y defnydd a wneir o adnoddau'r Cynulliad a chanfuwyd bod yr Aelodau dan sylw wedi torri'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, gan nad oedd y rhain yn achosion difrifol ac iddynt gael eu hunioni'n syth, deliais â hwy yn unol ag adran 10 o'r Weithdrefn Gwyno.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod y rhan hon o'r Weithdrefn wedi caniatáu i mi ddelio â'r cwynion hyn yn gyflym, heb fod angen eu cyfeirio at y Pwyllgor. Yn fy marn i, gweithiodd y rhan hon o'r Weithdrefn gwyno yn effeithiol iawn. Rwy'n ymwybodol y bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Weithdrefn Gwyno yn y cyfarfod heddiw. Mae papur yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys fy sylwadau ar sut y mae'r Weithdrefn wedi gweithio yn gyffredinol. Fel y nodais yn gynharach, rwyf yn awyddus i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn ym mha ffordd bynnag.

Mae'r achosion llai difrifol hyn o dorri'r Canllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad yn amlygu problem posibl yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau'r Cynulliad sydd ar fin cael eu cynnal. Yn 2003, cyhoeddodd y Cynulliad ganllaw ategol i Aelodau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Rwy'n bwriadu ysgrifennu at Bwyllgor y Ty yn amlinellu fy mhryderon yn y maes hwn ac argymell y cyhoeddir canllawiau tebyg yn barod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007.

Yn olaf, bydd Aelodau'n ymwybodol fod cyfarfod heddiw yn cyd-ddigwydd ag isetholiad Blaenau Gwent. Byddaf yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus cyn gynted â phosibl er mwn trafod unrhyw bryderon posibl a'i helpu i ddeall diwylliant safonau'r Cynulliad.

**Richard Penn**
**Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol**
**Mehefin 2006**